# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.37**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(214)

**Datganiad y Llywydd: Ymgysylltu â Phobl Ifanc (5 munud)**
Dechreuodd yr eitem am 13.37

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad yn lansio'r dull newydd o ymgysylltu â phobl ifanc. Esboniodd mai'r weledigaeth yw bod barn pobl ifanc yn cael ei chynnwys ym mhob agwedd ar waith y Cynulliad, ac y bydd tair rhan i'r dull o ymgysylltu â phobl ifanc. Y rhan gyntaf fydd ymestyn allan: bydd pobl ifanc yn cael eu hannog i gymryd rhan pwy bynnag ydynt ac ym mhle bynnag y maent. Yr ail ran fydd annog trafodaeth: byddwn yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i bobl ifanc gymryd rhan yn ein gwaith. Y drydedd ran fydd adborth: byddwn yn esbonio i bobl ifanc sut y mae eu cyfraniadau yn gwneud gwahaniaeth, fel eu bod hwy ac eraill yn cael eu hysbrydoli i ymgysylltu rhagor. Yna galwodd y Llywydd ar arweinwyr y pleidiau, a wnaeth ddatganiadau yn amlinellu ymrwymiad eu grwpiau gwleidyddol i ymgysylltu â phobl ifanc..

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid**

Dechreuodd yr eitem am 13.43

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 3 a 7 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 11 ac 13 eu grwpio.

## 2 Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.29

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.07

Gofynnwyd y cwestiwn.

## 4 Datganiad gan Bethan Jenkins: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.15

## 5 Dadl ar Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Dechreuodd yr eitem am 15.53

**NDM5556 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8 (8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Dechreuodd yr eitem am 16.26

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch argaeledd gwasanaethau bariatrig

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**NDM5557 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar argaeledd gwasanaethau bariatrig, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.48

**NDM5558 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Cyllid Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.25

**NDM5559 Eluned Parrott (Canol De Cymru):** Chwarae teg? Amser i ymgynghori ar daliadau comisiwn tecach wrth werthu cartrefi mewn parciau.

Bydd y ddadl yn canolbwyntio ar y taliadau comisiwn sy'n daladwy i berchnogion safleoedd pan fo perchnogion cartrefi mewn parciau yn gwerthu eu heiddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.46

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Medi 2014